

Ffocws ar Fythau Cyffredin

Mae'r arholiadau a safwyd yr haf hwn i ennill cymwysterau bellach wedi dod i ben, ac mae'n amser i'r byrddau arholi eu marcio a'u graddio. Ymhen rhyw bum wythnos, bydd diwrnod y canlyniadau wedi cyrraedd. Bydd rhai yn edrych ymlaen at y diwrnod hwnnw yn awyddus, a bydd eraill ar bigau drain yn aros i weld a yw eu gwaith caled wedi bod yn werth chweil. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd mythau, camgredau, camdybiaethau – beth bynnag rydym am eu galw – yn dod i'r amlwg.

Mae rhai o'r rhain yn dod atom yn uniongyrchol, ac mae eraill yn sïon. Fodd bynnag, mae perygl bob amser y byddant yn cael eu hystyried yn ffeithiau, a allai ddifetha hyder a thanseilio cyraeddiadau haeddiannol myfyrwyr. Felly, hoffem ymchwilio i'r hyn rydym wedi'i glywed ac esbonio beth sy'n wir:

1. Bydd y myfyrwyr cyntaf i sefyll arholiad newydd o dan anfantais annheg

Mae'r cymwysterau newydd wedi newid o ran eu cynnwys a'u strwythur. Mae rhywfaint o'r cynnwys yn newydd neu wedi'i ddiweddarau, ac mae strwythur a dyluniad yr asesiadau wedi newid. Yn ôl ymchwil, pan fydd cymwysterau newydd yn cael eu cyflwyno, mae'r newid yn cael effaith ar berfformiad myfyrwyr.

Mae myfyrwyr sy'n sefyll arholiad newydd yn ystod yr ychydig flynyddoedd cyntaf yn debygol o ennill marciau is yn eu papurau arholiad na myfyrwyr a safodd yr hen arholiadau, lle'r oeddent yn fwy cyfarwydd â nhw. Yn Saesneg, 'sawtooth effect' yw'r enw a roddir ar y patrwm newid hwn. Dros amser, wrth i athrawon a myfyrwyr ddod yn gyfarwydd â'r arholiad newydd, mae perfformiad yn debygol o wella.

Er mwyn diogelu myfyrwyr fel nad ydynt o dan anfantais annheg drwy sefyll arholiadau newydd gyntaf, rydym yn dilyn yr egwyddor canlyniadau cymaradwy. Mae hyn yn golygu, os bydd y cohort cenedlaethol o fyfyrwyr sy'n sefyll arholiad yn debyg i gohort y llynedd, y byddwn yn disgwyl i'r canlyniadau ar lefel genedlaethol fod yn debyg eleni. Yn ymarferol, rydym yn disgwyl i fyrddau arholi addasu ffiniau graddau i wneud iawn am berfformiad gwannach yn yr asesiadau – 'sawtooth effect'.

Mae byrddau arholi wedi defnyddio'r dull canlyniadau cymaradwy hwn yn flaenorol i gynnal safonau pan fydd cymhwyster yn newid. Mae rhagor o wybodaeth am y dull canlyniadau cymaradwy mewn erthygl ffocws ar wahân.

2. Ceir cwota penodol o raddau

Nid ydym yn disgwyl gweld newidiadau mawr yn y gyfran o raddau a ddyfernir bob blwyddyn. Fodd bynnag, rydym yn derbyn rhywfaint o amrywiad rhwng canlyniadau o un flwyddyn i'r llall, cyn belled â bod gan y bwrdd arholi dystiolaeth i gefnogi sut mae wedi pennu ei ffiniau graddau.

Mae byrddau arholi yn pennu ffiniau graddau mewn cyfarfodydd dyfarnu lle mae pwyllgor

o uwch arholwyr yn ystyried amrywiaeth o dystiolaeth, gan gynnwys dangosyddion ystadegol a gwaith myfyrwyr. Lle y ceir tystiolaeth i gefnogi gwelliant, neu ddirywiad, mewn perfformiad, gall byrddau arholi gyflwyno tystiolaeth i ni er mwyn cyfiawnhau pam y dylai hyn gael ei adlewyrchu mewn canlyniadau, a all fod yn anghyson â rhagfynegiadau ystadegol.

3. Ni all ysgolion wella

Hyd yn oed pan fydd canlyniadau cenedlaethol yn parhau'n gyson, nid yw ein dull o gynnal safonau yn atal canlyniadau ysgol unigol rhag gwella. Rydym yn tybio na ddylai'r gyfran o raddau a ddyfernir yn genedlaethol bob blwyddyn newid yn fawr, oni bai bod rheswm da.

Mae gan rai ysgolion a cholegau ganlyniadau sefydlog iawn dros amser. Fodd bynnag, pan fydd

cymhwyster yn newid, rydym yn rhagweld mwy o amrywiad o flwyddyn i flwyddyn nag arfer yng nghanlyniadau ysgolion a cholegau unigol. Gall hyn fod o ganlyniad i amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys newidiadau ym mhatrymau cofrestru ysgolion ar gyfer arholiadau, ac i ba raddau y mae addysgu wedi addasu i fodloni gofynion y manylebau newydd.

4. Mae gradd C yn safon wahanol bob blwyddyn

Mae gan gymwysterau TGAU fodel asesu 'cydadferol'. Hynny yw, maent yn caniatáu i berfformiad gwell yn un rhan o'r cymhwyster wneud iawn am berfformiad gwaeth yn rhan arall ohono. Felly, nid yw'r syniad bod gradd C yn golygu y gall myfyrwyr wneud X, Y a Z yn hollol wir ar sail eu perfformiad mewn arholiadau.

Nid yw cymwysterau TGAU yn gyfres o rwystrau y mae'n rhaid i fyfyrwyr eu goresgyn er mwyn ennill y radd honno. Yn hytrach, ceir dull 'ffit orau' ar sail tystiolaeth o arholiadau. Mae hyn yn golygu y gall dau fyfyrwr sy'n ennill gradd C fod wedi rhagori mewn gwahanol elfennau o'r arholiad ac, ar lefel uned, bod eu canlyniadau yn edrych yn wahanol iawn.

Mae'n bosibl eich bod wedi clywed 'mythau' eraill a'ch bod am gael rhagor o wybodaeth amdanynt. Mae croeso i chi gysylltu â ni os nad ydych yn siŵr p'un a ddylech gredu rhywbeth y mae rhywun wedi'i ddweud wrthy, neu 'ffaith' rydych wedi'i chlywed, a byddwn yn ceisio cynnig darlun cliriach i chi.